

Y CYNGOR

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 10.00 ar 12 EBRILL 2019, yn Ystafell Gyfarfod y Ganolfan Ddelweddu.

Yn bresennol: Dr Emyr Roberts, Cadeirydd y Cyngor (yn y Gadair); Ms Gwerfyl Pierce Jones, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor; Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; Mr George Ashworth; Mrs Samantha Blackie; Dr Hazel Davey; Ms Anne Davies (trwy Skype); Mr Richard John; Ms Anna Wyn Jones, Llywydd UMCA; y Gwir Anrhydeddus Elfyn Llwyd; Mr Ian MacEachern (trwy Skype); Ms Kath Williams; Yr Athro Robin Williams; a'r Athro Reyer Zwiggelaar.

Yn gweinyddu: Mr Stephen Forster, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol; Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mrs Esther Prytherch, Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus; Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; Ms Helen Baird, AdvanceHE; Mr Robin Halley, Cyfarwyddwr Marchnata a Denu Myfyrwyr (ar gyfer cofnodion 73.3 i 74.2); a Ms Trish McGrath, Prif Weithredwr, UMAber.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Mr Bruce Wight, Llywydd UMAber; a'r Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr).

64. MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

1. Croeso

Croesawyd y canlynol i gyfarfod y Cyngor:

1. Trish McGrath, Prif Weithredwr Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth (UMAber), a oedd yn bresennol ar gais Llywydd UMAber i arsylwi ar y cyfarfod.
2. Helen Baird o AdvanceHE, a oedd yn arsylwi ar y cyfarfod yn rhan o arolwg allanol o effeithiolrwydd y llywodraethu yn y Brifysgol.

2. Llongyfarchion

Bydd Emyr Humphreys, cyn-fyfyriwr a Chymrawd er Anrhydedd yn y Brifysgol, yn dathlu ei ganfed ben blwydd ar 15 Ebrill 2019. Roedd yr Is-Ganghellor wedi anfon cerdyn ar ran y Brifysgol i longyfarch Mr Humphreys ar y garreg filltir hon.

3. Cydymdeimlad

Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

1. Yr Athro Emeritws David J Batten, gynt o'r Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear;
2. Patrick Bolster, myfyriwr yn Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig;
3. Dr Geoffrey Evans, cyn-ddarlithydd yn yr Adran Addysg; a
4. Y Cynghorydd Paul James, Gweithiwr Diogelwch yn y Tîm Bywyd Campws.

4. AdvanceHE

Hwn fyddai'r cyfarfod olaf i dîm AdvanceHE arsylwi arno yn rhan o arolwg allanol o effeithiolrwydd y llywodraethu yn y Brifysgol. Pan fydd y gwaith maes wedi'i gwblhau, bydd adroddiad drafft yn cael ei baratoi a'r bwriad yw ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio ar 23 Mai, 2019.

5. Yr Hen Goleg

Er bod diweddariad manwl ynglŷn â'r Hen Goleg mewn man arall ar yr agenda, anogodd y Cadeirydd bob aelod o'r Cyngor i ystyried cyfrannu i apêl codi arian y prosiect.

6. Digwyddiadau eraill

Ers cyfarfod diwethaf y Cyngor, roedd y Cadeirydd wedi cynrychioli'r Brifysgol mewn dau gyfarfod: cynhadledd a drefnwyd gan y Cyngor Cyllido ar 07 Mawrth 2019, a Chyfarfod Llawn y Gwanwyn o Bwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion ar 04 ac 05 Ebrill 2019. Y prif destunau trafod yn yr ail gyfarfod oedd pensiynau a Brexit.

65. GWRTHDARO BUDDIANNAU

NODWYD

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

66. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 08 Chwefror 2019 (COU1819-101).

PENDERFYNWYD

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

67. MATERION YN CODI O'R COFNODION

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (COU1819-102).

NODWYD

1. Pantycelyn (cofnod 50.1)

Dros nos roedd y Brifysgol wedi derbyn y cynnig cyfandaliad olaf oddi wrth y contractwyr a ffefrir. Roedd y cynnig hwn nawr yn cael ei ystyried gan AECOM, sef ymgynghorwyr costau'r sefydliad. Pe bai angen, byddai rhagor o beirianeg gwerth yn cael ei wneud dros y bythefnos nesaf i sicrhau y gellid cyflawni'r prosiect o fewn y gyllideb o £16.5miliwn a gymeradwywyd gan y Cyngor yn ei gyfarfod diwethaf.

2. Ffermydd y Brifysgol (cofnod 51.2)

Roedd yr Is-Ganghellor yn obeithiol y byddai'r strategaeth fwy hirdymor ar gyfer Ffermydd y Brifysgol yn cael ei hystyried yn ystod y cylch cyfarfodydd nesaf. Ond, cydnabuwyd efallai y byddai'n rhaid oedi'r strategaeth ddrafft tan yr hydref 2019 oherwydd blaenoriaethau cystadleuol.

3. Y diweddariadau eraill a ddarparwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

68. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1819-103).

NODWYD

1. Manylai'r adroddiad ar yr adegau ers cyfarfod diwethaf y Cyngor yr oedd yr aelodau wedi cymeradwyo materion trwy ohebiaeth.
2. Y materion a gymeradwywyd gan aelodau'r Cyngor trwy ohebiaeth oedd:
 1. cyflwyno Cynllun Ffioedd a Mynediad 2020-21 i'r Cyngor Cyllido; a
 2. Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol y Brifysgol am y cyfnod 2017-18.

69. GOHEBIAETH

Nid oedd Ysgrifennydd y Brifysgol wedi derbyn gohebiaeth nad oedd eisoes wedi'i ddwyn i sylw'r aelodau.

70. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (COU1819-104).

NODWYD

1. Roedd tair prif adran i'r adroddiad: adroddiad am uchafbwyntiau; prif ystyriaethau cynllunio a sefyllfa ddiweddaraf denu myfyrwyr; ac adroddiad ynglŷn â chyfathrebiadau.
2. Roedd yr Is-Ganghellor wedi cyrraedd yn ôl o China yn ddiweddar, lle'r oedd dirprwyaeth o'r Brifysgol wedi cyfarfod â phartner sefydliadau ac asiantau. Bu'r ymweliad yn un cadarnhaol, a osododd sail i gynyddu nifer y myfyrwyr i Aberystwyth o'r wlad honno. Mae ymweliadau tebyg yn cael eu cynllunio â Malaysia a Fiet Nam yn nes ymlaen yn y flwyddyn.
3. Llongyfarchwyd yr Athro Iain Donnison gan yr aelodau ar ei benodi'n Bennaeth IBERS yn dilyn trefn benodi allanol. Rhoddwyd diweddariad hefyd ar y drefn i benodi Pennaeth newydd Adran y Gyfraith a Throseddeg.
4. Trafododd yr aelodau'r rhagolygon diweddaraf ynglŷn â niferoedd myfyrwyr ar gyfer mynediad ym mis Medi 2019, a'r gweithgareddau trosi a oedd yn cael eu cynnal ar hyn o bryd. Er bod cynlluniau newydd i ddenu myfyrwyr - gan gynnwys rhai i gynyddu nifer myfyrwyr rhyngwladol - wedi eu lansio'n ddiweddar, roedd tystiolaeth o sefydliadau eraill yn awgrymu mai yn yr hirdymor y byddai manteision llawn cynlluniau newydd o'r fath yn cael eu gweld.
5. Yn rhan o ymdrechion parhaus i gydymffurfio â gofynion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), ers mis Tachwedd 2018, mae'r Brifysgol wedi mynnu bod staff yn cwblhau modiwlau e-ddysgu ar GDPR a Diogelu Gwybodaeth. Roedd data yn dangos graddfeydd cwblhau'r modiwlau'n cael eu rhoi i'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio [LI&Ch], lle mynegodd yr aelodau bryder oherwydd lefelau isel y rhai a gymerodd yr hyfforddiant yn rhai o'r adrannau.

6. Er bod camau'n cael eu cymryd i sicrhau bod staff yn cwblhau'r hyfforddiant GDPR gorfodol, roedd y graddfeydd yn awgrymu difaterwch diwylliannol ehangach o fewn i rannau o'r sefydliad tuag at hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus. Byddai hyn yn cael ei ystyried ymhellach gan Gyfarwyddwr newydd Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol pan ddechreuai yn ei swydd, gan gynnwys dulliau y gellid eu cyflwyno i sicrhau bod staff yn cwblhau unrhyw hyfforddiant gorfodol (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol).

PENDERFYNWYD

7. Y dylai holl aelodau'r Cyngor gael eu cofrestru ar y modiwlau e-ddysgu ar GDPR a Diogelu Gwybodaeth a'u cwblhau (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).
8. Y dylai'r Is-Ganghellor gyhoeddi neges gadarn ar ran y Cyngor ynghylch pwysigrwydd cwblhau'r modiwlau e-ddysgu GDPR a Diogelu Gwybodaeth fel mater o flaenoriaeth (**GWEITHREDU:** Yr Is-Ganghellor).

71. ADRODDIAD GAN UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Lywydd UMAber (COU1819-105).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad fanylion diweddaraf y datblygiadau yn UMAber ers cyfarfod diwethaf Cyngor y Brifysgol.
2. Cafodd Tîm Swyddogion UMAber eu llongyfarch ar eu henwi'n Dîm Swyddogion y Flwyddyn yng ngwobrau UCM Cymru 2018-19.

72. DIWEDDARIAD IECHYD A DIOGELWCH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Reolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (COU1819-106).

NODWYD

1. Mewn ymateb i gais yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor y dylid adolygu'r dull o adrodd wrth y corff llywodraethu ar faterion iechyd a diogelwch, byddai diweddariadau o'r fath yn y dyfodol yn cael eu cyflwyno ar wahân ar yr agenda yn hytrach nag yn rhan o adroddiad yr Is-Ganghellor.
2. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r diweddariad llawnach a gyflwynwyd i'r Pwyllgor LI&Ch ar 14 Mawrth 2019.
3. Awgrymodd yr Is-Ganghellor y dylai'r Brifysgol weithio tuag at wneud ei champysau'n 'ardaloedd di-fwg'. Cefnogwyd hyn gan y Cyngor, a byddai'r cynnig yn cael ei symud yn ei flaen fel sy'n briodol (**GWEITHREDU:** Yr Is-Ganghellor).

73. MATERION ARIANNOL

1. Diweddariad Ariannol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol, Mark Godsell, yn ymgorffori crynodeb o berfformiad ariannol Chwarter 2 2018–19 (COU1819-107).

NODWYD

Rhoddai'r adroddiad ddisgrifiad o berfformiad ariannol y Brifysgol ar ddiwedd Chwarter 2 2018-19, yn ogystal â'r manylion diweddaraf am newidynnau allweddol perthnasol. Cafodd fersiwn lawnach o'r adroddiad ei ystyried gan y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad ar 14 Mawrth 2019.

2. Y Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol; Cyfarwyddwr Strategaeth Newid; Y Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol Mark Godsell; a'r Cyfrifydd Rheolaethol, Mark Davies (COU1819-108).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad fanylion diweddaraf ynglŷn â'r arbedion a wnaed hyd yn hyn yng nghyswllt targedau'r CGC; y ffactorau ariannol yn dylanwadu ar gyflawni o'i gymharu â thargedau; a'r dull lliniaru risg a sefydlwyd.
2. Mewn ymateb i'r cais a wnaed yn y cyfarfod blaenorol, roedd yr adroddiad yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor fod y strwythurau diwygiedig sy'n cael eu gweithredu yn unol â'r strategaeth sefydliadol a'r is-strategaethau arfaethedig.
3. Yn dilyn ystyried yr amrywiol sefyllfaoedd yng nghyswllt rhagolygon ariannol pum mlynedd yng nghyfarfod y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad ar 24 Ionawr 2019, nodai'r adroddiad sut, yn y sefyllfa waethaf posibl, y gellid ymdrin â diffyg posibl yng nghyllideb 2019-20 trwy gyfuniad o dwf a rhagor o arbedion.

PENDERFYNWYD

4. Y dylid paratoi adroddiad cryno, pan fydd y CGC wedi'i gwblhau'n ffurfiol, i adolygu'r ffordd y rhodddwyd y cynllun ar waith, i weld a gafodd y targedau eu cyrraedd ai peidio, a gwersi i'w dysgu ar gyfer y dyfodol (**GWEITHREDU**: Yr Is-Ganghellor).

3. Cytundeb Enwebiadau Pentre Jane Morgan

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Bennaeth Llety a Datblygu Llety (COU1819-109).

NODWYD

1. Cynhaliwyd arolwg cychwynnol yn 2018 o'r Cytundeb Enwebiadau rhwng 'Pobl' a'r Brifysgol yng nghyswllt Pentre Jane Morgan. Roedd yr arolwg wedi tynnu sylw at yr angen i gael trafodaethau manylach rhwng y ddau barti, ac roedd bellach wedi arwain at ddatblygu papur sefyllfa terfynol.
2. Cafodd y dealltwriaethau y daethpwyd iddynt o ganlyniad i'r trafodaethau, gan gynnwys y canlyniadau ariannol i'r Brifysgol trwy egluro agweddau o'r Cytundeb Enwebiadau gwreiddiol, eu nodi yn yr adroddiad.
3. Cafodd yr aelodau eu sicrhau gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol fod y dealltwriaethau y daethpwyd iddynt gyda'r 'Bobl' yn cynrychioli gwerth da am arian i'r Brifysgol. Cadarnhawyd hefyd i'r Brifysgol gael ei chynghori gan gynrychiolwyr cyfreithiol yng nghyswllt y mater hwn.

PENDERFYNWYD

4. Cymeradwyo'r sefyllfa derfynol a nodir yn yr adroddiad, a fyddai'n cael ei gwneud yn Weithred Amrywio i'r Cytundeb Enwebiadau a weithredir gan y ddau barti (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Ystadau, Adnoddau a Llety; a Phennaeth Llety a Datblygu Llety).

4. Adnodd Credyd Cylchdroawl

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol (COU1819-110).

NODWYD

1. Yn dilyn penderfyniad y Cyngor ar 08 Chwefror 2019 i gadarnhau'n ffurfiol y penderfyniad blaenorol i gaffael Adnodd Credyd Cylchdroawl (ACC), gwnaed cais gan y benthyciwr i gynnwys Campws Arloesi a Menter Aberystwyth Cyf (AIEC) yn barti i'r cytundeb ACC.
2. Oherwydd y cais munud olaf hwn bu'n rhaid cynnal trafodaethau pellach, â'r benthyciwr ac â Chyngor Ymchwil Biotechnoleg a'r Gwyddorau Biolegol, sef y cyfranddaliwr arall yng nghwmni AIEC Cyf. O ganlyniad cynhaliwyd cyfarfod o Fwrdd AIEC ar 05 Ebrill 2019 a chafodd ei gadarnhau'n ffurfiol y byddai'r is-gwmni'n dod yn barti i'r cytundeb ACC.
3. Cafodd fersiynau diweddaraf y dogfennau a atodwyd i adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol eu hystyried a'u trafod gan yr aelodau. Cadarnhawyd y byddai camgymeriadau teipio a gwybodaeth goll yn cael eu cywiro a'i darparu cyn eu cyflawni.

PENDERFYNWYD

4. Cadarnhau'r penderfyniad blaenorol i gaffael Adnodd Credyd Cylchdroawl, a chymeradwyo'r penderfyniad ffurfiol a fynnir gan y benthyciwr, yn unol â'r cofnod ar wahân yn Atodiad 1 (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol).

74. MATERION STRATEGOL

1. Cynllun Strategol 2018-2023 Dangosyddion Perfformiad Allweddol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Bennaeth Cynllunio (COU1819-111).

NODWYD

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno pwyntiau data cyfredol yng nghyswllt y 10 Dangosydd Perfformiad Allweddol anariannol y cytunodd y Cyngor arnynt ar 23 Mawrth 2018.

PENDERFYNWYD

Y dylai Gweithrediaeth y Brifysgol ystyried y targedau ar gyfer costau staff fel canran o incwm, gyda golwg ar ei ddiwygio i fod yn unol â'r gwerth diweddaraf am arian yn y sector yng Nghymru, fel y cyhoeddwyd gan y Cyngor Cyllido ym mis Mawrth 2019 (**GWEITHREDU:** Pennaeth Cynllunio).

2. Strategaeth Marchnata a Denu Myfyrwyr

DERBYNIWYD

1. Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Marchnata a Denu Myfyrwyr, yn ymgorffori drafft y Strategaeth Marchnata a Denu Myfyrwyr a'r Cynllun Gweithredu (COU1819-112).
2. Cyflwyniad ar Arddangosiadau UCAS 2019 (COU1819-129); a
3. Prosbectysau israddedig ar gyfer mynediad yn 2019 a 2020 (COU1819-130 a COU1819-131).

NODWYD

4. Roedd Strategaeth Marchnata a Denu Myfyrwyr newydd yn cael ei ddatblygu er mwyn rhoi eglurder a chyfeiriad i weithgareddau'r Brifysgol yn y cyswllt hwn. Byddai'r Strategaeth ddrafft, a gynlluniwyd i ategu Cynllun Strategol 2018-2023 y Brifysgol, yn rhoi gwell amlinelliad o ddull y sefydliad o fynd ati i ddenu myfyrwyr yn y dyfodol. Roedd y drafft hefyd yn canolbwyntio ar ddatblygu negeseuon a chynnwys, yn hytrach na'r dull o'u cyfathrebu.
5. Trafododd yr aelodau gynnwys y drafft a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig yn fanwl - yn enwedig y bwriad i gynyddu gweithgareddau denu myfyrwyr y tu allan i Gymru a sicrhau enillion da ar fuddsoddiadau yn achos yr holl weithgaredd.
6. Roedd swyddogaethau'r Adran Marchnata a Denu Myfyrwyr yn cael eu had-drefnu ar hyn o bryd. Roedd gweithgaredd rhyngwladol y sefydliad wedi'i gynnwys yn y broses hon. Roedd y cynigion yn cynnwys creu swyddogaeth newydd i ganolbwyntio ar wybodaeth am y farchnad, a fyddai'n rhoi'r Brifysgol mewn sefyllfa i ymateb yn well i'r galwadau cyfnewidiol i astudio amrywiaeth o feysydd.
7. Croesawodd yr aelodau ddyluniad newydd Prosbectws y Brifysgol, a oedd wedi mabwysiadu dull gwahanol o bortreadu'r sefydliad i ddarpar-fyfyrwyr. Yn benodol, roedd y prosbectws ar gyfer mynediad 2020 yn rhoi mwy o wybodaeth ar gynnwys y cyrsiau a'r modiwlau a gynigir. Roedd hyn yn adlewyrchu'r camau a gymerwyd i ddangos portffolio'r Brifysgol yn glir mewn ymateb i'r cyngor a gafwyd yn flaenorol gan 'The Knowledge Partnership'.
8. Yn fwy diweddar, roedd y Brifysgol wedi comisiynu *DataHE* i wneud dadansoddiad o'r data ceisiadau a chofrestru. Casgliad hyn oedd bod y Brifysgol yn annodweddiadol am nad oedd pellter o gartref yn ffactor pwysig wrth wneud penderfyniad yng ngolwg y rhai sy'n gwneud cais i astudio yma.
9. Un o'r amcanion cyntaf, ar ôl i'r Strategaeth ddrafft gael ei chymeradwyo, fyddai datblygu ymhellach gynnig brandio'r Sefydliad a fyddai'n arwain dull y Brifysgol o'i hyrwyddo'i hun i grwpiau, gan gynnwys ymgeiswyr, rhieni a rhanddeiliaid eraill. Byddai copi o'r cynnig brandio'n cael ei rannu â'r Cyngor ar ôl ei ddatblygu (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr Marchnata a Denu Myfyrwyr).
10. Yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor, gofynnodd yr aelodau am nodyn byr yn amlinellu sut y mae'r cyngor a gafwyd gan ymgynghorwyr allanol yn cael ei ddefnyddio yng ngweithgareddau'r Brifysgol ar gyfer marchnata a denu myfyrwyr, a gweithgareddau eraill. Er bod hyn i raddau helaeth wedi'i drafod yng nghyfarfod yr eitem hon ar yr agenda, byddai'r nodyn yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Cyngor (**GWEITHREDU**: Yr Is-Ganghellor; a Chyfarwyddwr Marchnata a Denu Myfyrwyr).

PENDERFYNWYD

11. Cymeradwyo'r Strategaeth Marchnata a Denu Myfyrwyr (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Marchnata a Denu Myfyrwyr).

75. YR HEN GOLEG

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol (COU1819-113).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn rhoi braslun o gynllun busnes drafft ar gyfer yr Hen Goleg ar ôl ei adnewyddu, ac ystyriaethau allweddol eraill; yn ogystal â rhoi diweddariad ynglŷn â chostau adeiladu. Cafodd yr adroddiad ei ystyried yn fanwl gan y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad ar 14 Mawrth 2019.
2. Ar 28 Mehefin 2019, byddai'r Cyngor yn cael ei wahodd i ystyried cynllun busnes terfynol y prosiect, a fyddai'n elfen allweddol o'r cyflwyniad arfaethedig i Gronfa Dreftadaeth y Loteri yn rhan o ail gylch y broses gyllido. Er na fyddai'r holl gyllid cyfatebol angenrheidiol yn ei le erbyn y cyfarfod hwnnw o'r Cyngor, pwysleisiodd yr aelodau bod angen amcan da ynglŷn â thebygrwydd cyrraedd y targedau codi arian.

76. PENODI AELODAU ANNIBYNNOL AR Y CYNGOR

DERBYNIWYD

1. Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1819-115); a
2. Adroddiad pellach gan Ysgrifennydd y Brifysgol ar ganlyniad cyfarfod a gynhaliwyd gydag unigolyn a wnaeth gais i fod yn aelod o'r Cyngor (COU1819-128).

NODWYD

3. Ar hyn o bryd roedd dau le gwag i Aelodau Annibynnol i wasanaethu ar y Cyngor. Cynigiwyd y dylai Fiona Sharp - sydd wedi bod yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ers 01 Awst 2018 - gael ei phenodi i un o'r lleoedd gwag.
4. Cafodd yr ail le ei hysbysebu'n allanol, gan annog unigolion a chanddynt brofiad o addysg uwch, y Gymraeg a diwylliant Cymru, a marchnata, i ymgeisio. Cafodd y ceisiadau a ddaeth i law eu hystyried, a chynhaliwyd trafodaeth strwythuredig yn y Brifysgol gydag un o'r ymgeiswyr ar 11 Ebrill 2019. Cafodd canlyniad y cyfarfod hwn ei gadarnhau ers hynny gan aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio.
5. Er nad oedd yn fwriad gan y Brifysgol i ofyn am eirda allanol i'r ymgeiswyr gan eu bod yn yr achos hwn yn wybyddus i'r sefydliad mewn sawl cyd-destun, fe fyddai hynny'n rhan o'r drefn yn y dyfodol ar gyfer penodi Aelodau Annibynnol i wasanaethu ar y Cyngor.

PENDERFYNWYD

6. Cymeradwyo penodi Fiona Sharp i'r corff llywodraethu, am dymor o dair blynedd yn dechrau ar 01 Mai, 2019 (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).
7. Cymeradwyo penodi Meri Huws i'r Cyngor a'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio, am dymor o dair blynedd yn dechrau ar 01 Mai, 2019 (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

77. PENODI DIRPRWY GANGHELLOR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1819-116).

NODWYD

1. Yn unol â phenderfyniad y Cyngor ar 26 Tachwedd 2018, dechreuodd y drefn o benodi Dirprwy Ganghellor ar 19 Rhagfyr 2018. Rhoddwyd disgrifiad o'r swyddogaeth ar wefan llywodraethu'r Brifysgol a'i ddisbarthu'n eang, gan wahodd enwebiadau erbyn 18 Ionawr 2019.
2. Ar 24 Ionawr 2019, cafodd Pwyllgor Dewis ei gynnwyl i ystyried yr enwebiadau a ddaeth i law. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r drefn a ddilynwyd, ac yn rhoi enw'r unigolyn yr argymhellir ei benodi.

PENDERFYNWYD

3. Penodi'r Athro Emeritws Elan Closs Stephens yn Ddirprwy Ganghellor am gyfnod cychwynnol o dair blynedd, yn dechrau ar 01 Ionawr 2020 (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

78. CYTUNDEB CYDNABOD UNDEBAU LLAFUR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1819-117).

NODWYD

1. Wrth roi fframwaith ddiwygiedig is-bwyllgorau'r Cyngor ar waith yn ystod yr haf 2018, nodwyd bod angen gwneud diwygiadau canlyniadol i'r Cytundeb Cydnabod rhwng y Brifysgol a'r Undebau Llafur cydnabyddedig.
2. Yn dilyn hynny, cafodd diwygiadau eu datblygu i ddiweddarau cyfeiriadau at bwyllgorau, yn ogystal ag esbonio sut y penodir cynrychiolwyr y Brifysgol ar y Cyd-bwyllgor Ymgynghori a Negodi (JCNC)
3. Cafodd y newidiadau arfaethedig eu hystyried yng nghyfarfod JCNC a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2019, ochr yn ochr â newidiadau pellach a gynigiwyd gan gynrychiolwyr yr Undebau Llafur. Roedd y fersiwn o'r Cytundeb Cydnabod a atodwyd i'r Adroddiad yn adlewyrchu'r holl newidiadau a gadarnhawyd yng nghyfarfod y JCNC.
4. Cafodd y newidiadau arfaethedig eu hystyried hefyd gan y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio ar 14 Mawrth 2019, lle'r argymhellodd yr aelodau a dylai'r Cyngor gymeradwyo'r Cytundeb Cydnabod Undebau Llafur diwygiedig.

PENDERFYNWYD

5. Cadarnhau'r diwygiadau arfaethedig i'r Cytundeb Cydnabod (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

79. COD YMARFER UNDEB Y MYFYRWYR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1819-118).

NODWYD

1. Rhaid i'r Brifysgol gael Cod Ymarfer yn ei le i ddangos yn glir sut y mae'n cyflawni ei dyletswyddau o dan Ddeddf Addysg 1994 Rhan II yng nghyswllt unrhyw Undeb Myfyrwyr yn y Brifysgol.
2. Yn dilyn trafodaeth rhwng Ysgrifennydd y Brifysgol a Phrif Weithredwr Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth - yn rhannol mewn ymateb i ad-drefnu uwch dîm y Brifysgol a'r prif bwyllgorau llywodraethu - roedd nifer o fân newidiadau'n cael eu cynnig o'r Cod Ymarfer. Roedd y diwygiadau hyn wedi'u nodi yn yr adroddiad.
3. Cafodd y newidiadau arfaethedig eu hystyried hefyd gan y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio ar 14 Mawrth 2019, lle'r argymhellodd yr aelodau a dylai'r Cyngor gymeradwyo Cod Ymarfer diwygiedig Undeb y Myfyrwyr.

PENDERFYNWYD

4. I gymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

80. PENODI'N FFURFIOL ARCHWILWYR ALLANOL AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 GORFFENNAF 2019

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol Nansi George (COU1819-119).

NODWYD

1. Yn dilyn ymarfer caffael yn 2018, dyfarnwyd tendr tair blynedd a hanner i KPMG i ddarparu gwasanaethau Archwilio Allanol. Serch hynny mae'n rhaid i'r Cyngor benodi'r Archwilwyr Allanol yn ffurfiol bob blwyddyn.
2. Cafodd yr adroddiad ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARS) ar 15 Mawrth 2019, lle'r argymhellodd yr aelodau a dylai'r Cyngor gytuno'n ffurfiol ar benodiad yr Archwilwyr Allanol.

PENDERFYNWYD

3. Penodi KPMG yn Archwilwyr Allanol yn ffurfiol am y flwyddyn yn dod i ben 31 Gorffennaf 2019, ar y ffi a nodwyd yn yr adroddiad (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

81. EITEMAU ER GWYBODAETH

DERBYNIWYD

Derbyniodd aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (COU1819-120);
2. Dogfennau wedi'u selio â'r Sêl Gyffredin (COU1819-121);
3. Adroddiad blynyddol apeliadau academaidd a chwynion myfyrwyr (COU1819-122);
4. Crynodeb blynyddol o'r cwynion cyhoeddus a dderbyniwyd (COU1819-123); a
5. Crynodeb blynyddol o'r materion a gafodd eu trin o dan y polisi datgelu er lles y cyhoedd a'r polisi gwrth dwyll a charmarfer (COU1819-124).

NODWYD

6. Adroddiad blynyddol apeliadau academiaidd a chwynion myfyrwyr

Gofynnir am eglurhad am y cynnydd bach a fu mewn mathau penodol o apeliadau, a rhoddir diweddariad i'r aelodau yng nghyfarfod nesaf y Cyngor (**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr)).

7. Cynnwys yr adroddiadau a gyflwynwyd er gwybodaeth.

82. ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd yn cynnwys y canlynol (COU1819-125);

1. Y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio (14 Mawrth 2019);
2. Y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (14 Mawrth 2019);
3. Y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (15 Mawrth 2019);
4. Y Senedd (27 Mawrth 2019); a'r
5. Pwyllgor Dewis Dirprwy Ganghellor (24 Ionawr 2019).

NODWYD

6. Yr adroddiadau a dderbyniwyd o'r is-bwyllgorau.

ATODIAD 1 - COFNODION YR ADNODD CREDYD CYLCHDROAWL

Cofnodion cyfarfod y CYNGOR a gynhaliwyd am 10.00 ar 12 EBRILL 2019, yn Ystafell Gyfarfod y Ganolfan Ddelweddu.

Yn bresennol: Dr Emyr Roberts, Cadeirydd y Cyngor (yn y Gadair); Ms Gwerfyl Pierce Jones, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor; Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; Mr George Ashworth; Mrs Samantha Blackie; Dr Hazel Davey; Ms Anne Davies (trwy Skype); Mr Richard John; Ms Anna Wyn Jones, Llywydd UMCA; y Gwir Anrhydeddus Elfyn Llwyd; Mr Ian MacEachern (trwy Skype); Ms Kath Williams; Yr Athro Robin Williams; a'r Athro Reyer Zwiggelaar.

Yn gweinyddu: Mr Stephen Forster, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol; Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mrs Esther Prytherch, Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus; Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; Ms Helen Baird, AdvanceHE; Mr Robin Halley, Cyfarwyddwr Marchnata a Denu Myfyrwyr; a Ms Trish McGrath, Prif Weithredwr, UMAber.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Mr Bruce Wight, Llywydd UMAber; a'r Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr).

A1. ADNODD CREDYD CYLCHDROAWL

NODWYD

1. Ar 06 Gorffennaf 2018, roedd y Cyngor wedi rhoi cymeradwyaeth gychwynnol i'r Brifysgol gaffael Adnodd Credyd Cylchdroawl (Adnodd) ar ran y corff llywodraethu.
2. Erbyn hyn, cafodd telerau eu trafod gyda Banc National Westminster ccc (y 'Benthyciwr') i ddarparu'r Adnodd.
3. Dosbarthwyd copi o ddrafft terfynol cytundeb lle byddai'r Benthyciwr yn darparu'r Adnodd i'r Brifysgol (y Cytundeb Adnodd) i holl aelodau'r Cyngor gyda dogfennaeth y cyfarfod, ynghyd ag adroddiad yn crynhoi telerau'r Cytundeb Adnodd, a baratowyd gan gyfreithwyr y Brifysgol, Michelmores LLP. Ymhlith pethau eraill roedd yr adroddiad yn nodi mai un o amodau'r Benthyciwr ar gyfer darparu'r Adnodd i'r Brifysgol oedd bod is-gwmni'r Brifysgol, sef Campws Arloesi a Menter Aberystwyth Cyf (AIEC), yn gwarantu rhwymedigaethau'r Brifysgol o dan Gytundeb yr Adnodd.
4. Stephen Forster, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, gyda chymorth Michelmores LLP, fu'n trafod telerau'r Cytundeb Adnodd, ac yn awr gwahoddodd sylwadau ac ymholiadau gan aelodau'r Cyngor ynghylch y telerau hynny. Cadarnhaodd aelodau'r Cyngor eu bod wedi adolygu'r Cytundeb Adnodd a'r adroddiad a baratowyd gan Michelmores LLP a'u bod yn deall ac yn fodlon â thelerau'r Cytundeb.
5. Ystyriodd aelodau'r Cyngor yr oblygiadau i'r Brifysgol o ymrwymo i'r Cytundeb Adnodd.
6. Ystyriodd yr aelodau hefyd y bydd angen i'r Brifysgol, fel un o gyfranddalwyr AIEC, roi ei chaniatâd i AIEC gael ei gynnwys yn amodau'r warant a fyddai'n cael eu gosod ar AIEC o ganlyniad i ddod yn rhan o'r Cytundeb.

CYNGHORWYD

7. Ar ôl ystyried telerau'r Cytundeb Adnodd a'i oblygiadau i'r Brifysgol, y dylid cymeradwyo'n ffurfiol bod y Brifysgol yn ymrwymo i gyfleuster y Cytundeb Adnodd:
 - 7.1 bod telerau'r Cytundeb Adnodd, a'r trafodiad a fwriedir ganddo, ac unrhyw ddogfennau ategol neu gysylltiedig (gan gynnwys, er mwyn osgoi amheuaeth,

penderfyniad aelodau AIEC yn cymeradwyo bod AIEC yn dod yn rhan o'r Cytundeb Adnodd):

7.1.1. yn cael eu cymeradwyo; a

7.1.2. eu bod yn cyd-fynd â dogfennau cyfansoddiadol y Brifysgol neu unrhyw ddeddf neu ymrwymiad arall sydd gan y Brifysgol, ac nad ydynt yn mynd yn groes iddynt, ac, yn benodol, na fydd ymrwymo i'r Cytundeb Adnodd na chyflawni ei rhwymedigaethau o dan y Cytundeb Adnodd yn mynd y tu hwnt i unrhyw gyfyngiad ar bwerau'r Brifysgol i fenthycu arian,

ac y dylai'r Brifysgol weithredu a chyflawni'r Cytundeb Adnodd ac unrhyw ddogfennau ategol neu gysylltiedig;

7.2. bod dull y Brifysgol o gyflawni ei rhwymedigaethau o dan y Cytundeb Adnodd yn cael ei gymeradwyo;

7.3. y dylai Clerc y Cyngor osod sêl y Brifysgol ar y Cytundeb Adnodd ac y dylai gosod y sêl honno gael ei ddilysu gan:

7.3.1. unrhyw ddau aelod o'r Cyngor; neu

7.3.2. unrhyw un o aelodau'r Cyngor a Chlerc y Cyngor

ac wrth wneud hynny gellid cytuno ar unrhyw ddiwygiadau a wneir i Gytundeb yr Adnodd a'u cymeradwyo ar ôl cynnal y cyfarfod hwn;

7.4 awdurdodi unrhyw aelod o'r Cyngor a/neu'r Cyfarwyddwr Cyllid a'r Gwasanaethau Corfforaethol i lofnodi a/neu anfon neu ddosbarthu pob dogfen, hysbysiad a thystysgrif arall i'w llofnodi a/neu eu hanfon neu ddosbarthu gan y Brifysgol (heb fod angen gosod sêl) o dan y Cytundeb Adnodd neu'n gysylltiedig ag ef; a

7.5 awdurdodi pob aelod o'r Cyngor a'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol bob un yn unigol i gyflawni unrhyw weithred, fater, neu beth, ac i weithredu a dosbarthu unrhyw ddogfen sydd yn eu barn hwy yn angenrheidiol neu'n fanteisiol ei wneud neu ei gyflawni yn gysylltiedig â'r cyllid a ddarperir i'r Brifysgol neu'r Cytundeb Adnodd ac i gymeradwyo unrhyw ddiwygiadau (boed o sylwedd ai peidio) neu gwblhau unrhyw fanylion yn gysylltiedig â'r Cytundeb Adnodd neu unrhyw ddogfen arall y cyfeirir ati yn y penderfyniadau hyn (gan gynnwys partïon ychwanegol), os bydd y gymeradwyaeth wedi'i thystio'n ddiymwad trwy weithredu'r ddogfen berthnasol neu trwy ei llofnodi.

8. Gofynnwyd i Glerc y Cyngor ychwanegu'r cofnodion angenrheidiol i'r gofrestr selio.